| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 25ain Mai 2023 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 4 Archwilio Cymru ynghyd a Chrynodeb Archwilio Blynyddol 2022 a Chynllun Archwilio Amlinellol 2023 sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

## 1. CEFNDIR

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 4 2022/23 wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.

1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 9fed o Chwefror 2023. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno ym Medi 2023.

## 2. CRYNODEB ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2022 A CHYNLLUN ARCHWILIO AMLINELLOL 2023

2.1. Mae Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2022 Cyngor Gwynedd gan yr Archwilydd Cyffredinol **(Atodiad 2)** yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn y Cyngor hwn gan Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf ym mis Ionawr 2022.

2.2. Dylid pwysleisio nad adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor mo'r adroddiad hwn.

2.3. Er mwyn cyflawni dyletswyddau’r Archwilydd Cyffredinol mae Archwilio Cymru yn cwblhau gwaith bob blwyddyn sydd ynghlwm a’r dyletswyddau canlynol - Archwilio Cyfrifon, sicrhau Gwerth am Arian, gwneud Gwelliannau Parhaus a chydymffurfio a’r Egwyddor Datblygu Gynaliadwy.

2.4. Fe gwblheir prosiectau penodol gan hefyd ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi ei gasglu gan reoleiddwyr eraill megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. Ceir crynodeb o ganfyddiadau a’r casgliadau ar gyfer y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y ddogfen crynodeb.

2.5. Hefyd atodir y Cynllun Archwilio Amlinellol ar gyfer 2023 fel **Atodiad 3.** Mae’n disgrifio’r rhaglen waith amlinellol ar gyfer y flwyddyn yn unol â’r dyletswyddau a nodir yn 2.3 uchod. Rhagwelir y bydd y cynllun terfynol ar gyfer y flwyddyn yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf.

2.6. Bydd swyddogion Archwilio Cymru yn cyflwyno’r prif bwyntiau i’r Aelodau a bydd cyfle i ofyn cwestiynau ar sail cynnwys yr adroddiadau.